

Cynllun Iaith Gymraeg CITB – Cynllun Cyflawni

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn amlinellu'r prif fanylion gweithredu mewn perthynas â'r ymrwymadau a wnaed yng Nghynllun Iaith Gymraeg CITB. Bydd y Cynllun yn cael ei fonitro a'i oruchwyllo gan Gynghorydd Polisi'r Gymraeg a'i gefnogi gan Grŵp Iaith Gymraeg CITB.

Darpariaeth Gwasanaeth

Maes targed	Cam Gweithredu	Timau yr effeithir arnynt o bosibl	Cyfrifoldeb dros gyflawni	Dyddiad targed
Dewis iaith	Darparu modd o gofnodi dewis iaith ar gyfer yr holl gyfathrebu a marchnata gan gynnwys teleffoni, a gohebiaeth ysgrifenedig, cyhoeddiadau a gwybodaeth am gynnyrch	Pob tîm	Pennaeth Newid a Thechnoleg	Rhagfyr-2023
Gohebiaeth ysgrifenedig	Hysbysu adrannau o fewn CITB sy'n cynnal gweithrediadau yng Nghymru o'r angen i gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Gwneir hyn trwy sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chyfathrebu mewnol. Ar gyfer cyfathrebiadau sydd wedi'u hymgorffori yn y system byddwn yn gweithio gyda'r Pennaeth Newid a Thechnoleg i fynd i'r afael â materion. Monitro neu archwilio perfformiad yn rheolaidd, gan ddarparu adborth ac arweiniad i wella gwasanaethau.	Cyfathrebu a Marchnata, Tîm Ymgysylltu, Tîm Cynhyrchion, Tîm Ymchwil, Tîm Strategaeth, Tîm Contractau a Chomisiynu.	Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg, Pennaeth Newid a Thechnoleg.	Dechreuwyd Targed cwblhau cyflwyno'r prosiect Rhagfyr-2023
Gohebiaeth Ffôn	Darparu gwasanaeth dwyieithog llawn ar y brif linell ffôn cyhoeddus yng Nghymru.	Tîm CITB Cymru	Systemau TG, SSCL	Dechreuwyd Targed cwblhau

	<p>Dargyfeirio galwadau fel y bo'n briodol, yn ôl dewis iaith a natur yr ymholiad.</p> <p>Ar linellau ffôn nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau ar ran CITB i gyflogwyr o Gymru, dylid darparu opsiwn i'r rhai sy'n dymuno siarad Cymraeg gael eu trin yn briodol.</p> <p>Staff CITB Cymru i ateb eu ffôn gyda chyfarfodiad dwyieithog (bore da/prynhawn da) a bod yn gyfarwydd â'r protocolau ar gyfer cynnig gwasanaeth Cymraeg. Bydd staff di-Gymraeg yn cael canllawiau ar ddelio â galwadau ffôn Cymraeg.</p> <p>Sicrhau bod negeseuon llais yn cael eu recordio yn ddwyieithog (llinell tir a symudol)</p>	<p>Pob adran CITB sy'n cynnig gwasanaethau ffôn. Pob darpariaeth dan gontract sy'n cynnig gwasanaethau CITB.</p> <p>Tîm CITB Cymru</p> <p>Tîm CITB Cymru</p>	<p>Systemau TG, SSCL</p> <p>Holl staff CITB Cymru, Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg, Systemau TG</p> <p>Holl staff CITB Cymru, Systemau TG</p>	<p>Mehefin-2023</p>
<p>Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus</p>	<p>Sefydlu dewis iaith ar gyfer cwsmeriaid a rhanddeiliaid cyn anfon gwahoddiadau dwyieithog neu Gymraeg yn unig.</p> <p>Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru.</p>	<p>Pob tîm sy'n gwahodd cyflogwyr a rhanddeiliaid i gyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Pob tîm sy'n gwahodd cyflogwyr a rhanddeiliaid i gyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru.</p>	<p>Tîm systemau TG</p> <p>Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg, Uwch Gyfieithydd</p>	<p>Cytunwyd ar y broses gyda timau Cymru ac mae ar waith.</p> <p>Y timau sy'n weddill i gydymffurfio erbyn Mehefin-2023</p>
<p>Cyhoeddusrwydd</p>	<p>Sicrhau bod negeseuon cyson yn</p>	<p>Cyfathrebu a Marchnata,</p>	<p>Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith</p>	<p>Cytunwyd ar y broses</p>

	<p>Gymraeg a Saesneg ar draws pob dull cyfathrebu CITB yng Nghymru.</p> <p>Rhaid i holl ddeunydd Cymraeg gael ei brawf ddarllen gan aelod o dîm y Gymraeg.</p> <p>Darparu cyfweiliadau gyda'r cyfryngau yn Gymraeg i hyrwyddo negeseuon allweddol CITB yn y Gymraeg ymhellach.</p> <p>Dylid cynnwys yr Ymgynghorydd ar Bolisi'r laith Gymraeg mewn cyfarfodydd creadigol a chynllunio ar gyfer gweithgaredd cyhoeddusrwydd i gynghori ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y cyfnod cynllunio a dylunio, yn unol ag ymrwymadau'r Cynllun laith Gymraeg.</p>	<p>Tîm CITB Cymru.</p> <p>Pob tîm.</p> <p>Staff sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Pob tîm.</p>	<p>Gymraeg, Tîm Cyfathrebu</p> <p>Cynghorydd ar Bolis'r laith Gymraeg, Uwch Gyfieithydd</p> <p>Swyddog y Wasg, Eiriolwyr cyfryngau Cymraeg</p> <p>Tîm cyfathrebu, Tîm Cynnyrch, Cynghorydd ar Bolis'r laith Gymraeg</p>	<p>gyda timau Cymru ac mae ar waith.</p> <p>Y timau sy'n weddill i gydymffurfio erbyn Mehefin-2023</p>
Ffurflenni a gwasanaethau ar-lein	Dylid atgoffa adrannau o fewn CITB sy'n cynnal gweithrediadau yng Nghymru o'r angen i gyhoeddi ffurflenni a gwasanaethau ar-lein yn ddwyieithog.	Pob tîm CITB	Cynghorydd ar Bolisi'r laith Gymraeg	Rhagfyr-2023
Cyfryngau Cymdeithasol	Bydd yr holl gynnwys a negeseuon perthnasol yn cael eu hadlewyrchu'n gyfartal ar y sianeli cymdeithasol Cymraeg.	Cyfathrebu a Marchnata	Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol, Cynghorydd ar Bolisi'r laith Gymraeg, Uwch Gyfieithydd	Rhagfyr-2023
Gwefannau	Dylid sicrhau bod yr holl gynnwys ar wefannau CITB ac	Cyfathrebu a Marchnata	Tîm Digidol, Cynghorydd ar Bolisi'r laith	Rhagfyr-2023

	Am Adeiladu yn ddwyieithog. Dylid sicrhau unrhyw gynnwys newydd ar brif gwefan cyhoeddus CITB gael ei hysbysu ar gyfer cyfieithu i sicrhau gwasanaeth cyfartal yn y ddwy iaith.	Tîm Digidol, Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg, Uwch Gyfieithydd	Gymraeg, Uwch Gyfieithydd. Holl staff CITB.	
--	--	---	--	--

Llunio polisi – Corfforaethol a rheoleiddiol

Maes targed	Cam Gweithredu	Timau yr effeithir arnynt o bosibl	Cyfrifoldeb dros gyflawni	Dyddiad targed
Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau	Sicrhau bod pob polisi, menter, cod ymarfer newydd a hunaniaeth gorfforaethol CITB yn gyffredinol, yn ddwyieithog a'u bod yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy ofyn i staff ystyried y Gymraeg o'r cychwyn/dechrau unrhyw broses.	AD, Materion Cyhoeddus a chysylltiadau â'r Llywodraeth.	Arweinwyr tîm perthnasol, Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg.	Rhagfyr-2023

Safonau Gweithredol

Maes targed	Cam Gweithredu	Timau yr effeithir arnynt o bosibl	Cyfrifoldeb dros gyflawni	Dyddiad targed
Arferion AD a Recriwtio Staff	Monitro prosesau recriwtio yng Nghymru i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg.	AD, Timau sy'n recriwtio staff yng Nghymru.	Tîm AD, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cymru, Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg, Tîm Q&S, tîm Archwilio Darparwr Polisi a Hyfforddiant.	Cwblhau targed Porth Swyddi Rhagfyr-2023 Targed cwblhau'r holl weithgareddau eraill Mehefin-2023

	<p>Sicrhau bod pob hysbyseb swydd yng Nghymru yn ddwyieithog, gan gynnwys Disgrifiadau Swydd, pecynnau ymgeiswyr a Phorth Swyddi; ac y bydd y broses gyfweid hefyd yn adlewyrchu'r angen ieithyddol.</p> <p>Sicrhau bod gofynion dysgu a datblygu parhaus yn cael eu bodloni drwy gyfrwng sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan amlygu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod y broses cynefino.</p>	<p>AD, Tîmau sy'n recriwtio staff yng Nghymru.</p> <p>AD, Tîmau sy'n recriwtio staff yng Nghymru.</p>	<p>SSCL, tîm AD, Pob Rheolwr Llinell, Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg.</p> <p>Tîm AD, Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg.</p>	
Grantiau	Bydd unrhyw ddogfennaeth yn ymwneud â grantiau CITB ar gael yn ddwyieithog a rhoddir gwybod i ymgeiswyr y gallant gyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ymatebir i unrhyw geisiadau grant a dderbynnir yn Gymraeg a chânt eu hysbysu o'r penderfyniad yn Gymraeg.	Tîm Ymgysylltu â Chwsmeriaid Cymru.	Tîm cynnyrch, Pennaeth Contractau a Chomisiynu.	Rhagfyr-2023
Gwasanaeth gan Drydydd Parti a Phartneriaethau	Monitro gwasanaethau a ddarperir gan drydydd parti/partneriaethau ar ran CITB mewn perthynas â'r Gymraeg.	Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg., Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cymru, Tîm Cyfreithiol.	Pennaeth Newid a Thechnoleg Pennaeth Contractau a Chomisiynu, Cynghorydd	Trefniadau cytundebol presennol i'w hadolygu erbyn Rhagfyr-2023

	Lle mae CITB yn gwneud trefniadau gyda thrydydd parti/gweithio mewn partneriaeth, monitro'r trefniadau ynghylch defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr ag eraill gofynion monitro.	Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cymru, Tîm Cyfreithiol.	ar Bolisi'r Iaith Gymraeg. Pennaeth Newid a Thechnoleg Pennaeth Contractau a Chomisiynu, Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg.	Contractau newydd i'w gweithredu o'r dyddiad cychwyn
--	--	--	---	--

Monitro ac adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg

Maes targed	Cam Gweithredu	Tîmau yr effeithir arnynt o bosibl	Cyfrifoldeb dros gyflawni	Dyddiad targed
Monitro ac Adolygu	<p>Monitro cynnydd CITB o ran cyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun yn erbyn y mesurau mesuradwy a amlinellir yn y cynllun cyflawni hwn. Cofnodi'r galw am wasanaethau Cymraeg ac adrodd yn flynyddol i'r sefydliad a Chomisiynydd y Gymraeg.</p> <p>Adolygu Cynllun Iaith Gymraeg CITB o fewn tair blynedd ers y dyddiad y daeth i rym a thrafod unrhyw newidiadau gyda Chomisiynydd y Gymraeg.</p>	<p>Tîm Perfformiad Busnes, Tîm CITB Cymru.</p> <p>Tîm Perfformiad Busnes, Tîm CITB Cymru.</p>	<p>Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg.</p> <p>Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cymru, Cynghorydd ar Bolisi'r Iaith Gymraeg.</p>	Rhagfyr-2023 ac yn flynyddol wedyn am hyd oes y Cynllun.

Rheolaeth Fersiwn:

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Newid
Terfynol 1.0	03/11/2021	Helen Jones	Polisi Newydd
Terfynol 2.0	05/09/2022	Helen Jones	Diweddarau
Terfynol 2.1	22/09/2022	Helen Jones	Diweddarau'r dyddiadau targed